Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Beth yw hawliau plant?

## Ydych chi wedi clywed am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn?

Rhestr o hawliau yw'r Confensiwn sydd gan bob plentyn 0-18 oed.

Mae hawliau yn sicrhau ein bod ni i gyd yn cael ein trin yn deg, yn gallu cyflawni ein potensial ac yn gallu codi ein llais. Mae gan blant hawliau ychwanegol i oedolion, am fod angen amddiffyniad ychwanegol arnynt a'u bod yn ddibynnol iawn ar yr oedolion o'u cwmpas. Er mwyn sicrhau hawliau plant, dylai'r oedolion hyn ystyried yr hyn sydd orau i fabanod a phlant ifanc yn eu bywydau o ddydd i ddydd, i wneud yn siŵr eu bod yn cael mwynhau eu hawliau a bod yn iach, yn hapus ac yn ddiogel.

Yn y pen draw, mae'n ymwneud â'r hyn sydd ei angen ar bob plentyn i dyfu i fod **yn Hapus, yn Iach ac yn Ddiogel.**

Nid rhywbeth i osod gofynion ychwanegol arnoch chi yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Nid yw chwaith yn golygu y gall plant wneud beth bynnag maen nhw ei eisiau pryd bynnag maen nhw eisiau! Yn hytrach, mae'n rhoi'r ddealltwriaeth a'r gefnogaeth ichi i sicrhau bod plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.

## Cefnogi fy Hawliau - Dw i'n archwilio! (1-2 flwydd oed)

Arhoswch yn agos, dw i'n teimlo'n ddiogel pan fydd pethau'n gyfarwydd

Dewch i nabod fy nheulu a phwy ydw i

Rhowch ddewisiadau syml imi

Helpwch bawb i ddeall fy ffyrdd bach arbennig

Helpwch fi i ddarganfod fy mhersonoliaeth unigryw fy hun



Rhowch amser a lle imi gyfathrebu

Rhowch gyfleoedd imi roi cynnig ar bethau newydd

Siaradwch â phobl eraill sy'n gofalu amdanaf, a siaradwch amdanaf

OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG48481